Adroddiad Cadarnhaol i Ysgol Brynrefail gan Arolygwyr Estyn

Yn dilyn ymweliad monitro ôl-arolwg yn Tachwedd 2014, cafodd Ysgol Brynrefail ganmoliaeth uchel gan arolygwyr Estyn yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ar safwe Estyn ar yr 8fed o Ionawr. Bernir bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae Estyn felly wedi tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr ysgolion sydd angen eu gwella. Mae hyn yn dilyn adroddiad cadarnhaol iawn gan Wasanaeth Addysg Gwynedd ar y cynnydd cryf a chyson mae'r ysgol wedi ei wneud yn dilyn yr her a osodwyd gan Estyn yn yr arolwg craidd yn Nhachwedd 2012.

Yn benodol, bernir bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da ar draws llawer o'r dangosyddion perfformiad yn Cyfnod Allweddol 4 a bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd cryf yn:

- datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo sgiliau craidd y disgyblion;
- gwella'r cysondeb yn ansawdd y marcio ac adborth i rieni;
- cryfhau rôl y Corff Llywodraethu fel cyfaill beirniadol;
- cryfhau a chysoni atebolrwydd y rheolwyr canol;
- cryfhau'r cyswllt rhwng hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella ar lefel adrannol;
- sicrhau bod y disgyblion llywodraethwyr yn llwyr ymgymryd â'u rôl.

Dywedodd Mr Eifion Jones, Pennaeth yr ysgol:
"Rydym yn hynod falch o'r gydnabyddiaeth ffurfiol gadarnhaol gan Estyn a Gwasanaeth Addysg Gwynedd i ffrwyth gwaith caled holl aelodau cymuned yr ysgol a fu'n gweithio'n ddidrugaredd i sicrhau cynnydd cryf a chyson ar draws yr ysgol ar bob lefel sydd wedi arwain at godi safonau ymhellach. Carwn ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob cefnogaeth i'r ysgol."

Dywedodd Mr Dafydd Roberts, Cadeirydd y Corff Llywodraethu:
"Mae hyn yn newyddion da iawn i'r ysgol ac yn dystiolaeth o waith caled ac ymroddiad y staff a'r disgyblion yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Rydym fel Corff Llywodraethu yn hynod falch o'r canlyniad, a'n dyletswydd ni rŵan yw sicrhau ein bod yn cadw'r safon uchel hwn yn enwedig wrth wynebu'r her ychwanegol a ddaw yn sgîl y toriadau cyllidol arfaethedig."